

Y PWYLLGOR ADOLYGU GWASANAETHAU ARCHWILIO A CHORFFORAETHOL

15 Chwefror 2017

Yn bresennol: Y Cynghorydd M Williams (Cadeirydd)
Mr A Archer, Mrs G Hayward, y Cynghorydd M James, y
Cynghorydd L Jenkins, y Cynghorydd RM Lewis, y
Cynghorydd DWM Rees a Mr AE Sangster

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10:00 - 11:50)

1. Ymddiheuriad

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd R Owens.

2. Datgelu buddiant

Datgelodd Mr A Archer fuddiant personol ond nid un niweidiol yn adroddiad 07/17 Datganiad Llywodraethu Blynyddol, ond arhosodd yn y cyfarfod a chymerodd ran yn y drafodaeth.

3. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2016 eu cyflwyno i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2016 yn cael eu cadarnhau a'u llofnodi.

4. Y Grŵp Iechyd a Diogelwch: adroddiad am y cyfarfod

Ystyriodd yr aelodau yr adroddiad am y cyfarfod o'r Grŵp Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2016.

PENDERFYNWYD fod yr adroddiad am gyfarfod y Grŵp Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2016 yn cael ei dderbyn.

5. Adroddiad Archwilio Mewnol 2016/17

Roedd yr adroddiad yn crynhoi canlyniad gwaith a gwblhawyd ar sail cynllun archwilio gweithredol 2016/17 ac roedd yn cynnwys data yn cefnogi perfformiad archwilio mewnol a sut mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at y farn flynyddol.



Estynnodd y Cadeirydd groeso i Robin Pritchard o archwilwyr mewnol yr Awdurdod, Gateway Assure, a gyflwynodd yr adroddiadau. Y cyntaf o'r rhain oedd yr Adroddiad Bloc 1 a oedd yn cwmpasu dau faes - adolygiad llywodraethu gwybodaeth ac adolygiad o reolaethau ariannol allweddol ym maes caffael a chredydwyr. O ran Llywodraethu Gwybodaeth, roedd sicrwydd digonol wedi'i roi gyda nifer o faterion yn cael eu hamlygu. Soniwyd fod rheolwyr wedi ymateb yn gadarnhaol i'r materion hyn fel y nodir yn yr adroddiad. Roedd yr adolygiad o reolaethau ariannol allweddol ym meysydd caffael a chredydwyr wedi cael sicrwydd sylweddol.

Roedd Adroddiad Bloc 2 yn cynnwys adolygiadau o gostau cymorth, parhad busnes, rheoli perfformiad a ffioedd cynllunio. Soniwyd fod yr adolygiad o gostau cymorth wedi'i wneud fel ymarfer meincnodi ar draws y Parciau Cenedlaethol ac amlygwyd rhai meysydd fel rhan o'r adroddiad Bloc 2. Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ynglŷn ag effaith y Safonau Iaith Gymraeg ar gostau cyfieithu a chyfraddau absenoldeb salwch yr Awdurdod, yr oedd y swyddogion yn parhau i'w monitro. Barnwyd fod gallu Parciau Cenedlaethol Lloegr a'r Alban i ddefnyddio cwmnïau preifat i wneud eu harchwiliad allanol yn rheswm dros y gostyngiad yn eu costau yn y maes hwn, a theimlai un Aelod y dylai Awdurdodau Cymru gael rhyddid tebyg yn hyn o beth. Nodwyd fod yr adroddiad hwn yn cael ei gynnwys yn llawn ar gyfer y Pwyllgor ac y byddai hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Gweithgor sy'n adolygu'r Gwasanaethau Cymorth i'w ystyried ymhellach.

Gan droi at elfennau eraill Adroddiad Bloc 2, roedd Parhad Busnes a Rheoli Perfformiad wedi cael asesiad eu bod yn darparu sicrwydd digonol. Unwaith eto, roedd nifer o argymhellion wedi cael eu nodi ac roedd y rhain wedi cael eu cytuno neu eu cytuno'n rhannol gan reolwyr gyda'r ymatebion wedi'u nodi yn yr adroddiad. O ran yr argymhelliad i enwebu Hyrwyddwr Parhad Busnes i hwyluso'r Cynllun Parhad Busnes pe byddai rhywbeth yn digwydd, teimlai un Aelod fod peth rhinwedd mewn enwebu rhywun heblaw'r Prif Weithredwr i gymryd pob cyfrifoldeb mewn amgylchiadau o'r fath.

NODWYD.

6. Strategaeth Archwilio Mewnol 2017/18 i 2019/20

Eglurodd yr Archwilydd Mewnol fod y Strategaeth Archwilio Mewnol yn cynnwys cynllun o'r gwaith Archwilio i'w gwblhau gan yr Archwilwyr Mewnol yn y blynyddoedd i ddod. Roedd hyn cael ei adolygu'n flynyddol ac roedd yn ddigon hyblyg i adlewyrchu unrhyw faterion sy'n codi. Roedd y Strategaeth gerbron y Pwyllgor ar ffurf ddrafft er mwyn cael sylwadau'r



Aelodau ac wedi ei seilio ar asesiad o anghenion archwilio'r Awdurdod. Roedd nifer o feysydd wedi'u hychwanegu at y rhaglen yn sgil yr ymarfer meincnodi (gweler Cofnod 5), gan gynnwys cynhyrchu incwm ac incwm grant, diogelu, cyfathrebu a TG, a diogelu data.

Gyda golwg ar yr adolygiad o Gyfathrebu, gobeithiai un Aelod y byddai hyn yn cynnwys ystyried y canlyniadau a oedd wedi'u sicrhau yn ogystal â'r costau, er mwyn creu darlun cyflawn. Diolchodd yr Aelodau i'r Archwilydd am ei waith ac am y ffresni y rhoddodd ei dîm i'r archwiliad mewnol o waith yr Awdurdod.

NODWYD.

7. Meincnodi Perfformiad Awdurdod Cynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Soniwyd fod ail Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cynllunio Cymru Gyfan wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr ar gyfer y cyfnod adrodd o Ebrill 2015 i Mawrth 2016. Roedd yr adroddiad hwn, a gafodd ei atodi ar gyfer yr Aelodau, yn rhoi crynodeb o'r data a feincodwyd am foddhad cwsmeriaid a dangosyddion perfformiad cynllunio allweddol ar draws y meysydd effeithlonrwydd, ansawdd ac ymgysylltu.

Roedd sail yr adroddiad yn ddeublyg – y fframwaith perfformiad a oedd yn dangos perfformiad yn erbyn dangosyddion a thargedau y cytunwyd arnynt gyda rhanddeiliaid ac a lywiwyd gan ddata a gasglwyd yn chwarterol; a'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol a baratoir gan bob Awdurdod, a oedd yn crynhoi eu perfformiad dros y flwyddyn ariannol flaenorol, ac yn nodi meysydd o arfer gorau a champau i'w cymryd i yrru gwelliant lle bo angen. Fel rhan o hyn, roedd yr Awdurdod wedi cynnal arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid a anelwyd at asesu barn pobl a oedd wedi cael penderfyniad cais cynllunio yn ystod y flwyddyn.

Yn gyffredinol, perfformiodd yr Awdurdod yn dda o ran bodlonrwydd cwsmeriaid, gan sgorio'n well na chyfartaledd Cymru ar draws yr holl ddatganiadau ar wahân i un a oedd 1% yn is na'r cyfartaledd. O ran effeithlonrwydd, roedd yr Awdurdod yn 6ed ymhlith Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru o ran yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i benderfynu ar gais yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, mewn perthynas â cheisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn yr amserlen ofynnol dim ond 72% a gafodd yr Awdurdod o gymharu â 77% ar draws Cymru, ac felly roedd yn is na'r targed o 80%, er mai dim ond 8 Awdurdod oedd wedi cyrraedd y targed. Effeithiwyd yn rhannol ar berfformiad yn y maes hwn gan y ffaith



fod yr adran Rheoli Datblygu wedi bod heb reolwr am tua 5 mis o'r cyfnod adrodd. Roedd y data am berfformiad ar gyfer 2016/17 eisoes yn dangos gwelliant yn y maes hwn. Gan droi at ansawdd penderfyniadau, roedd y ffigurau ar gyfer apeliadau yn dda, oherwydd o'r tri a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn roedd pob un wedi cael eu gwrthod. Yn olaf, o ran ymgysylltu, er bod yr Awdurdod yn un o ddau Awdurdod i fod â chofrestr ar-lein rhannol o geisiadau cynllunio yn 2015/16, mae'r mater yn cael sylw drwy gyflwyno system rheoli dogfennau.

Roedd yr Aelodau'n falch o'r canlyniadau a gofynnwyd i'w diolch gael ei gyfleu i'r staff yn y tîm. Soniwyd y dylai adroddiad mor gadarnhaol gael sylw yn y wasg. Fodd bynnag, nodwyd er bod 54% o'r ymatebwyr o'r farn bod yr Awdurdod wedi gorfodi ei reolau cynllunio yn deg ac yn gyson, roedd hynny'n golygu bod 46% naill ai ddim â barn neu ddim yn credu bod hynny'n wir. Cytunodd y swyddogion fod hyn yn ganfyddiad anodd i fynd i'r afael ag ef, ond nodwyd bod hwn yn arolwg o'r rhai a oedd wedi cael penderfyniad am ganiatâd cynllunio ac y gallai'r penderfyniad fod wedi dylanwadu ar eu hymateb.

NODWYD.

8. Adroddiad am Berfformiad am y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2016

Atgoffwyd yr Aelodau gan y Cydgysylltydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth fod strwythur Cynllun Corfforaethol yr Awdurdod ar gyfer 2016/17 yn adlewyrchu strwythur Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gyda saith amcan llesiant. Roedd yr adroddiad perfformiad hefyd wedi'i addasu i ddilyn yr amcanion hyn, gydag adran ychwanegol yn darparu gwybodaeth gyffredinol am lywodraethu.

Roedd yr adroddiad yn dangos y perfformiad hyd yma ar gyfer tri chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol. Nodwyd fod ffurf yr adroddiad wedi cael ei newid er mwyn cynnwys, lle bo'n bosibl, ddata o flynyddoedd blaenorol er cymhariaeth, ac astudiaethau achos i ddangos y camau gweithredu lle bo'n briodol.

Dangosodd yr adroddiad fod y perfformiad wedi gwella ar draws nifer o ddangosyddion cynllunio gan gynnwys canran y ceisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn 8 wythnos yn ystod y flwyddyn hyd yn hyn. Fodd bynnag, nodwyd hefyd y bu gostyngiad yn nifer yr ymweliadau â'r brif wefan ers y llynedd, yn rhannol oherwydd bod y ffigurau defnyddwyr wedi chwyddo yn 2015 yn dilyn dwy ymgyrch fawr ar-lein. Roedd diwedd y cyllid



ar gyfer prosiect Eich Parc ym mis Mawrth 2016 hefyd wedi effeithio ar nifer y bobl 'anodd eu cyrraedd' a oedd yn ymgysylltu â'r Parc Cenedlaethol. Holodd yr Aelodau a oedd y targed yn realistig a derbyniodd y swyddogion y gallai fod wedi cael ei ostwng oherwydd yr ansicrwydd ynghylch y parhad yng nghyllid y prosiect. Soniwyd, fodd bynnag, fod cyllid ar gael ar gyfer prosiectau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Yn olaf, nodwyd y dylai'r ffigur ar gyfer nifer y dyddiau gwirfoddoli fod yn 1207 yn hytrach na 1027.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad am berfformiad.

9. Adroddiad am Berfformiad y Gyllideb am 9 Mis hyd at fis Rhagfyr 2016

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid y gyllideb refeniw net ar gyfer y naw mis at 31 Rhagfyr 2016. Gwariant refeniw net yr Awdurdod oedd £3,309,000 a oedd yn £302,000 o dan y gyllideb a broffiliwyd o £3,611,000 ar gyfer y cyfnod o naw mis. Roedd y prif resymau am yr amrywiaeth yn y gwariant gwirioneddol yn erbyn y gyllideb ar gyfer pob adran Gwasanaethau wedi'u nodi yn yr adroddiad. Fodd bynnag, roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â materion amseru, arbedion staffio ac incwm uwch na'r disgwyl o daliadau mynediad a meysydd parcio. Nodyd yn y cyfarfod blaenorol bod gwerthiant nwyddau i lawr yn Oriel y Parc a Chastell Henllys. Roedd y sefyllfa hon yn parhau, ac roedd swyddogion yn ceisio canfod y rhesymau am hyn.

Cadarnhaodd y swyddogion fod rhaglen barhaus o wella meysydd parcio ar draws yr Awdurdod, ond holodd yr Aelodau a allai'r incwm ychwanegol a gynhrychir o'r meysydd parcio gael ei roi'n ôl i brosiectau cymunedol. Atebodd y Prif Weithredwr fod yr holl arian o brosiectau a gynhelir gan yr Awdurdod yn cael ei wario yng nghymunedau'r Parc Cenedlaethol ac awgrymodd y dylid efallai hyrwyddo mwy ar y gwaith hwn.

Soniwyd fod y rhaglen gyfalaf wedi cynyddu o'r gyllideb wreiddiol o £150.k i £173.1k. Roedd hyn oherwydd cynnwys rhaglen fawr i ailwampio meysydd parcio, a ariennir yn bennaf gan grant gan Lywodraeth Cymru, a gohirio'r prosiect Integreiddio Meysydd Parcio. Roedd y gwariant ar adnewyddu'r fflyd wedi cynyddu o £10k i £18.1k ac roedd y rhaglen hefyd bellach yn cynnwys gwaith ar y Caergewyll yn Angle a gwaith adnewyddu yng Nghastell Henllys.

Roedd y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn £702,000 ar 31 Mawrth 2016 ac roedd disgwyl i hyn gynyddu i £804,000 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol oherwydd y gwaged refeniw a ragwelir. Roedd disgwyl i'r cronfeydd wrth



gefn a glustnodwyd ostwng £182,000 i £1,607,000 ar ddiwedd y flwyddyn o ganlyniad i wariant ar brosiectau cyfalaf a refeniw amrywiol. Roedd yr Awdurdod hefyd wedi cymeradwyo creu tair cronfa wrth gefn arall ar gyfer y prosiectau Pwyth yn ei Bryd, Llwybrau a Sgiliau ar Waith II.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am yr adroddiad am berfformiad y gyllideb gan nodi fod y gostyngiad mewn refeniw yn cael ei reoli'n dda. Gofynnodd yr Aelodau i'w diolch gael ei gyfleu i'r staff.

NODWYD.

10. Y Gofrestr Risg

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid y gofrestr risg ddiweddaraf a adolygwyd yn ddiweddar gan Dimau Rheoli ac Arweinyddiaeth yr Awdurdod pryd y nodwyd cynnydd a newidiadau. Crynhowyd y newidiadau sylweddol mewn risgiau yn yr adroddiad. Oherwydd camgymeriad wrth argraffu'r gofrestr, roedd y risg olaf, rhif 38 a oedd yn ymwneud â'r posibilrwydd o adwaith anffafriol i'r ymgynghoriad ar ddarparu gwybodaeth, wedi'i hepgor, ac felly cafodd ei ddsbarthu i'r Aelodau yn y Pwyllgor.

Nodwyd hefyd y dylai'r saeth o ran risg 27 – methiant i wella mynediad i'r we a rheoli dogfennau ar gyfer y gwasanaeth DM – fod yn pwyntio tuag i lawr, yn hytrach nag i fyny, gan fod system rheoli dogfennau bellach yn cael ei rhoi ar waith. Roedd y risg o benderfyniad diffygiol ar faterion cynllunio hefyd wedi gostwng gan fod y risg blaenorol o adolygiad barnwrol bellach wedi'i ddileu. Fodd bynnag, dywedodd un Aelod a oedd wedi bod yn rhan o apêl cynllunio yn ddiweddar, fod yna risg o niwed ariannol, yn ogystal â niwed i enw da yn sgil penderfyniadau o'r fath, a thrafodwyd y posibilrwydd o greu cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i liniaru'r posibilrwydd hwnnw.

NODWYD.

11. Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Dywedwyd fod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gyfrwng i ddangos llwyddiant yr Awdurdod wrth gyflawni gwelliant parhaus mewn perfformiad, systemau a phrosesau rheoli penodol a'i fod yn amlygu'r materion llywodraethu arwyddocaol sydd angen sylw. Roedd Datganiad 2015/16 ynghlwm wrth yr adroddiad er mwyn i'r Aelodau allu cymharu a chael sylfaen i lunio cynnwys Datganiad 2016/17. Roedd fersiwn ddrafft ohono yn cael ei arddangos ar sgrin yn ystod y cyfarfod.



Gan droi at y Materion Llywodraethu Arwyddocaol i'w trafod yn rhan VI o'r adroddiad, awgrymodd un Aelod y byddai angen proses lwyddiannus o ymgynefino ac integreiddio Aelodau newydd yr Awdurdod, sef y rhai sydd i'w penodi cyn bo hir gan Lywodraeth Cymru a chan Gyngor Sir Penfro yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai.

CYTUNWYD fod y pwynt uchod yn cael ei gynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol drafft ar gyfer 2016/17 a fyddai'n cael ei gyflwyno i gyfarfod o Awdurdod y Parc Cenedlaethol ym mis Mawrth.

12. Tystysgrif Cydymffurfio â Mesur Llywodraethu Lleol

Soniwyd ei bod yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru ardystio bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur Llywodraethu Lleol ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau. Roedd yr Awdurdod wedi cael y Dystysgrif Cydymffurfio ym mis Rhagfyr 2016 ac roedd yn atodedig er gwybodaeth i'r Aelodau.

NODWYD.

13. Diagram yn amlinellu'r cysylltiadau rhwng Cynlluniau'r Awdurdod

Yn dilyn cais gan yr Aelodau, roedd y diagram uchod wedi'i lunio er gwybodaeth.

NODWYD.

14. Adolygiad o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol

Atgoffwyd yr Aelodau fod adroddiad wedi'i gyflwyno i gyfarfod o Awdurdod y Parc Cenedlaethol ym mis Chwefror yn gwahodd Aelodau i roi sylwadau ar Strwythur y Pwyllgorau ar hyn o bryd. Roedd yr Aelodau yn teimlo'n gyffredinol fod y strwythur presennol yn addas at y diben. Fodd bynnag, cytunwyd i roi cyfle i'r Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol a'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol adolygu eu Cylch Gorchwyl ac i wneud unrhyw argymhellion ar gyfer eu diwygio i Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

PENDERFYNWYD peidio â gwneud unrhyw newidiadau i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol.



15. **Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw faterion o bryder yr oedd y Pwyllgor am eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w trafod.

